# Pwyllgor yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2) 14-06(p1)

### Dyddiad: 9 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor i'w Chadarnhau, Senedd
### Teitl: Cyllideb Ddrafft 2007-08

#### Diben

Darparu cyfle i'r Pwyllgor roi ei sylwadau ar Gyllideb ddrafft 2007-08 yn unol â Rheol Sefydlog 21.3.

Mae Rheol Sefydlog 21.3 yn nodi y dylai pob un o Weinidogion y Cynulliad sy'n aelod o Bwyllgor Pwnc ofyn am farn y pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'i chyfleu i'r Gweinidog Cyllid.

#### Argymhelliad

Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac yn rhoi ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft (yn amgaeedig yn Atodiad 1).

#### Amserlen

I'w drafod ar 9 Tachwedd.

#### Cefndir

Ar 22 Mehefin 2006 aed ati i ymgynghori â'r Pwyllgor ar flaenoriaethau cyllideb portffolio'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn unol â Rheol Sefydlog 21.2. Cafodd blaenoriaethau'r Pwyllgor eu cyfleu i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor, a llywiodd y safbwyntiau hyn drafodaethau gyda'r Gweinidog Cyllid ar y gyllideb ddrafft. (Mae copi yn Atodiad 2)

#### Crynodeb

Prif Grwp Gwariant (MEG) Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**£,000**

| | 1999-2000 | 2006-07 (i) | 2007-08 | 2008-09 (ii) | 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell Sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol | 760,037 | 1,536,247 | 1,683,479 | 1,675,605 | 1,675,605 |
| Newidiadau | | | 22,500 | 22,500 | 22,500 |
| Cyfanswm Diwygiedig | 760,037 | 1,536,247 | 1,705,979 | 1,698,105 | 1,698,105 |
| % twf (99-00) | | 102.1 | 124.5 | 123.4 | |
| % twf blynyddol | | | 11 | -0.5 | |
| Cyfanswm y MEG yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 760,037 | 1,563,997 | 1,735,929 | 1,728,055 | 1,728,055 |

**Nodyn:**

(i)Mae'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2006-07 yn cynnwys y trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn o Adrannau eraill o'r Llywodraeth; £7.671m ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru a £13m ar gyfer Rhagori.

(ii) Nid yw'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2008-09 a 2009-10 yn cynnwys arian o tua £7m ar gyfer y Brifysgol Agored a drosglwyddir yn flynyddol o'r Adran Addysg a Sgiliau.

Mae setliad y gyllideb Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (ac eithrio AME) £169 miliwn yn fwy ar gyfer 2007-08 o gymharu â'r flwyddyn gyfredol, sef twf o tua 11%.

Mae hyn wedi sicrhau bod modd i ni barhau i ddatblygu'n:

- hymrwymiadau yn Cymru: Gwlad Well, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer brecwast am ddim; cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn raddol; parhau i ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19 a chyflwyno Bagloriaeth Cymru,
- ymrwymiad i sicrhau bod cyflogau'r maes Addysg Bellach yn cyfateb i gyflogau athrawon ysgol,
- buddsoddiad i wella adeiladau ysgolion.

**Perfformiad yn erbyn amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn y portffolio.**

**Ymrwymiadau Cymru: Gwlad Well:**

- Ffioedd amrywiadwy yn cael eu gwrthod yn ystod oes y Cynulliad hwn
- Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion
- Buddsoddi £560m er mwyn gwella adeiladau ysgolion
- Ysgolion sy’n perfformio waethaf i weithio i gyrraedd safon yr ysgolion gorau
- Cyfrif Dysgu Unigol i Gymru
- Ymestyn Bagloriaeth Cymru i lefelau canolradd a sylfaen
- Diwygio’r cwricwlwm 14-19 oed
- Dim disgybl i adael yr ysgol heb gymwysterau erbyn diwedd y degawd
- Ysgolion i fod yn adnodd cymunedol
- Cyflwyno cwricwlwm 3-7 newydd
- Canolfannau integredig a lle mewn meithrinfa i blant 3 blwydd oed
- Diwygio addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg
- Buddsoddi er mwyn ymdrin â phroblemau ysgolion bach a gwledig
- Lleihau maint dosbarthiadau plant iau
- Dileu’r bwlch o ran sgiliau sylfaenol
- Treialu hyfforddiant sgiliau am ddim ar gyfer oedolion i NVQ lefel 3

## Sut ydym yn defnyddio’r adnoddau i roi’r ymrwymiadau ar waith?

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn addysg Blynyddoedd Cynnar, gan gynnig lle mewn meithrinfa i bob plentyn 3 oed os yw rhieni yn dymuno hynny. Mae Dechrau’n Deg yn targedu’r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae’r ymyriadau arfaethedig yn cynnwys gofal plant am ddim o ansawdd da, gwasanaethau ymwelwyr iechyd ychwanegol a rhaglenni rhianta.

Mae ein hymrwymiad i’r fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion yn parhau, ac mae’r wybodaeth ddiweddaraf gan AALlau yn dangos bod 353 o ysgolion wedi dechrau darparu brecwast i ddisgyblion erbyn diwedd tymor yr haf 2006. Bydd 201 o ysgolion eraill yn dechrau cymryd rhan yn y cynllun yn ystod tymor yr Hydref eleni. Ar ben hynny, mae 58 o ysgolion eraill eisoes wedi cytuno i gymryd rhan erbyn tymor yr Hydref 2007, sy’n rhoi cyfanswm o 612 neu 38 y cant o holl ysgolion cynradd Cymru. Dwi’n siwr y bydd llawer o ysgolion eraill yn penderfynu cymryd rhan.

Mae’r Cyfnod Sylfaen yn gwricwlwm datblygiadol newydd ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed sy’n seiliedig ar ddysgu trwy chwarae a chymryd rhan. Ar hyn o bryd mae’r cwricwlwm yn cael ei dreialu mewn 42 lleoliad. O fis Medi 2008 ymlaen bydd yn cael ei gyflwyno’n raddol i bob lleoliad ac erbyn blwyddyn ysgol 2010-11 bydd ar waith ym mhob lleoliad.

Fis Medi 1999 roedd 31% o ddisgyblion iau mewn dosbarthiadau o dros 30 o blant, ond erbyn Medi 2005 roedd y cyfanswm hwn wedi gostwng i 0.2% (gan ystyried eithriadau a ganiateir). Mae pob ysgol gynradd bellach ar ei hennill oherwydd dosbarthiadau llai. Mae canlyniadau ysgolion sy’n perfformio i lefel isel yn gwella diolch i gymorth parhaus, ac mae’r rhaglen Rhagori yn targedu’r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad ac yn ceisio gwella disgwyliadau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion o bob oed sydd dan anfantais. Mae amrywiaeth o fentrau ar waith i hyrwyddo cynhwysiant a phroses ymgysylltu â disgyblion ym maes addysg er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial.

Rydym wedi dyrannu £3.5m mewn cyllid refeniw blynyddol o 2006-07 (ychwanegir £600,000 at hyn o'r Grant Cynnal Refeniw fel arian cyfatebol) fel cymorth ychwanegol ar gyfer ysgolion bach a gwledig, er mwyn helpu i godi safonau trwy hybu dulliau gweithio arloesol, datblygu ysgolion bach a gwledig fel canolbwynt i'w cymunedau, a chynorthwyo penaethiaid sy'n addysgu. Rydym hefyd wedi dyrannu cyllid gwerth £7m rhwng 2005-06 a 2007-08 er mwyn cefnogi'r polisi sy'n nodi y dylai ysgolion fod yn ganolbwynt ar gyfer darparu gwasanaethau i'r gymuned ac y dylai'r gymuned gyfrannu at waith ysgolion.

Rydym yn parhau i gynyddu ein buddsoddiad mewn adeiladau ysgolion. Disgwylir y bydd lefel y gwariant dros £667m ar gyfer y cyfnod rhwng 2004-05 a 2007-08, sy'n cynnwys gwerth cyfalaf cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat a'r £7m o gyllid ychwanegol a ddyranwyd yn y gyllideb ddrafft. Mae'r cyfanswm hwn yn uwch o lawer nag ymrwymiad ein maniffesto i wario £560 yn ystod oes y Cynulliad hwn.

Rydym wedi cyflawni'n hymrwymiadau ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae wedi ei threialu ar lefel Uwch a Chanolradd ym maes darpariaeth ôl-16 ers 2003. Mae wedi'i hymestyn bellach i gynnwys model lefel Sylfaenol, sydd wedi'i dreialu ochr yn ochr â'r model Canolradd ym maes darpariaeth 14-19. Diolch i gyllid ychwanegol ar gyfer 2007-08, mae modd i ni gynllunio i gyflwyno'r lefelau Uwch a Chanolradd o fis Medi 2007. Mae'r gwaith o gyflwyno ein hagenda Llwybrau Dysgu yn raddol yn parhau, a bydd hyn yn rhoi mynediad i bob person ifanc rhwng 14 ac 19 oed i lwybrau dysgu unigol sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a chynnydd.

Ym maes addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mae tua 440 o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi cwblhau eu hyfforddiant ac mae 300 arall yn hyfforddi ar hyn o bryd neu ar fin ymuno â chwrs.

Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi derbyn dros £13m er mwyn gweithredu'r rhaglen Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri. Mae Cyfrifon Dysgu Unigol ar waith, ac yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer hyfforddiant sgiliau am ddim i oedolion hyd at NVQ lefel 3, mae rhaglen newydd i ddatblygu'r gweithlu yn cael ei rhoi ar waith drwy'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth.

Mae ffrwd incwm ychwanegol o £33.5 miliwn bellach ar gael i sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad yn y maniffesto na fydd ffioedd amrywiadwy yn cael eu cyflwyno yng Nghymru yn ystod tymor presennol y Cynulliad.

## Blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer 2007- 08 a blynyddoedd y dyfodol

Bydd y cyllid ychwanegol arfaethedig a ddarperir gan Gylch Cynllunio'r Gyllideb 2006 a chan gylchoedd cynllunio cyllidebau eraill yn fy ngalluogi i roi fy ymrwymiadau ar waith yng nghyswllt wyth Maes Rhaglenni Gwariant (SPAs) yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS.)

### SPA 1: Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Blant
**Llinell sylfaen refeniw gyfredol £96.8m yn cynyddu i £121m yn 2007-08**
**Llinell sylfaen cyfalaf £5.2m yn 2007-08.**

Mae’r newidiadau i’r llinell gyfalaf yn adlewyrchu’r ail-broffilio o gyllidebau cyfalaf i rai refeniw yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) y Blynyddoedd Cynnar a gytunwyd y llynedd.

Mae’r cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cynyddu i £10m yn 2007-08 sy’n cynnwys £2.5m ychwanegol o’r gyllideb ddrafft arfaethedig. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau â’r cynllun peilot, ei ymestyn i ragor o ysgolion a darparu hyfforddiant cychwynnol. Disgwylir canlyniadau’r gwerthusiad fis Rhagfyr a bydd y rhain yn ein cynorthwyo yn ein bwriad i gyflwyno’r rhaglen o fis Medi 2008.

Mae’r bwriad i gynyddu cyllideb y Comisiynydd Plant i ddatblygu ei swyddfa wedi’i gadarnhau, a bydd hyn yn ei alluogi i gyfathrebu â mwy o blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mae cyllideb Dechrau’n Deg yn cynyddu i £31m. Yn dilyn ymgynghoriad eang, rydym yn dechrau rhoi’n cynlluniau ar waith i gynorthwyo’r grwp 0-3 oed mewn ardaloedd difreintiedig yn benodol, er mwyn ceisio gwella canlyniadau i blant yn yr hirdymor. Mae’r cyllid arfaethedig ar gyfer 2007-8 yn adlewyrchu darpariaeth y flwyddyn lawn gyntaf, sy’n targedu bron i 16,000 o blant 0-3 oed ledled Cymru.

Bydd y ddarpariaeth gyfalaf yn ein galluogi i sefydlu o leiaf un Ganolfan Integredig ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn cefnogi amcanion Llywodraeth y Cynulliad o gynnig dechrau gwell i blant a dewisiadau bywyd craidd i rieni a gofalwyr. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi defnyddio eu cyllidebau Cyfalaf Blynyddoedd Cynnar i addasu a gwella eu darpariaeth awyr agored wrth baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Hyd yma mae 38 Canolfan Integredig wedi agor yng Nghymru a bwriedir agor 2 arall tua diwedd 2006/dechrau 2007 ac un arall tua diwedd 2007/dechrau 2008.

Mae cyllideb Cymorth (gan gynnwys Gofal Plant) yn cynyddu o £56.7m i £59.5m a bydd y cyllid ychwanegol yn sicrhau bod tua 1,000 o brosiecthau lleol sy’n derbyn arian yn gallu parhau. Bydd hefyd yn creu Uned Gymorth Partneriaethau a gwerthusiad cenedlaethol pwysig.

**SPA 2: Seilwaith ysgolion**
**Llinell sylfaen refeniw yn gostwng o £10m i £8.8m**
**Llinell sylfaen cyfalaf yn cynyddu o £139m i £146m**

Bydd cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf ar wella adeiladau ysgolion yn fwy na’n hymrwymiad i wario £560m yn ystod oes y Cynulliad. Mae’r cynnydd o £7m o 2007-08 yn cynyddu’r gyllideb gyfalaf i £146m ym Maes Rhaglenni Gwariant Seilwaith Ysgolion MEG AADGOS. Pan gaiff hyn ei ychwanegu at £5.6m ar gyfer Cyllid Cyfalaf Cyffredinol MEG Llywodraeth Lleol, cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a gwerth cyfalaf y ddau gynllun Menter Cyllid Preifat a gymeradwywyd, bydd cyfanswm y buddsoddi rhagdybiedig a gwirioneddol dros £667m ar gyfer y cyfnod rhwng 2004-05 a 2007-08.

Mae’r gostyngiad mewn refeniw cyffredinol yn y SPA hwn i’w briodoli i’r ffaith fod y grant £3m ar gyfer Ysgolion sy’n Perfformio’n Isel wedi symud i’r gyllideb Rhagori yn y SPA Safonau Gwell.

Defnyddir y cynnydd o £430,000 i £962,000 ar gyfer Gweithgareddau Llywodraethwyr Ysgolion i ddiwygio ac ailgyhoeddi llawlyfr Llywodraethwyr Cymru ac i geisio cynyddu amrywiaeth o ran aelodaeth cyrff llywodraethu ysgolion. Defnyddir £330,000 o'r arian ychwanegol i dalu am y costau o gyflwyno cytundebau partneriaeth rhwng AALlau ac ysgolion. Bydd y cytundebau hyn yn nodi'r cymorth a'r gwasanaethau y bydd ysgolion yn eu derbyn gan eu AALl a'r hyn y mae AALlau yn ei ddisgwyl gan eu hysgolion.

£4.1 yw'r cyfanswm cyllid o hyd ar gyfer arloesedd mewn ysgolion bach, gan gynnwys ysgolion bach gwledig; mae £3.5m yn dod o MEG AADGOS a £600,000 o Awdurdodau Addysg Lleol fel rhan o gyfraniad Cronfa Ysgolion Gwell.

Mae fy swyddogion yn trafod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r £1m sydd ar gael o 2007 ymlaen i weithredu ar argymhellion arolwg Pwyllgor AADGOS ar gludiant i'r ysgol.

**SPA 3: Safonau Gwell**
**Cynyddu'r llinell sylfaen refeniw o £73.5m yn 2006-07 i £81.3m yn 2007-08.**
**Mae llinell sylfaen cyfalaf yn gostwng o £1.275m yn 2006-07 a £525,000 yn 2007-08**

Mae'r gostyngiad mewn cyfalaf ar gyfer 2007-08 yn adlewyrchu'r ffaith fod rhaglen 2 flynedd o fuddsoddi mewn technoleg i helpu i foderneiddio'r system arholi wedi'i chwblhau.

Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn cynyddu £1.8m i £4.35m yn 2007-08. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i roi'r cynllun peilot lefel Sylfaenol a Chanolradd ym maes darpariaeth 14-19 ar waith ac i ddechrau cyflwyno lefelau Uwch a Chanolradd ym maes darpariaeth ôl-16 yn raddol o fis Medi 2007.

Mae yna £1m ychwanegol ar gael yn 2007-08 a 2008-09 hefyd er mwyn hyrwyddo arferion arloesol a phrosiectau enghreifftiol sy'n ceisio helpu ysgolion i wella datblygiad a pharhad ym maes addysgu pobl ifanc sy'n symud o addysg gynradd i addysg uwchradd.

Fel rhan o'm hymrwymiad i Her Iechyd Cymru, bydd y cynnydd yng nghyllideb Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion o £1.8m i £3m yn galluogi Cyngor Chwaraeon Cymru i gydweithio ag awdurdodau lleol i gyflwyno'r arferion da a ddatblygwyd trwy brosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion ym mhob ysgol.

Mae'r cyllidebau yn y SPA hwn hefyd yn darparu cyllid ar gyfer datblygu cymwysterau, y cwricwlwm a chomisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer yr ystafell ddosbarth er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau, gan gynnwys llawer o rai statudol, a drosglwyddwyd o ACCAC adeg yr uno.

Mae'r cynnydd o ran refeniw yn cynnwys trosglwyddiad £3m o SPA Seilwaith Ysgolion ar gyfer y rhaglen Rhagori lle bydd y gyllideb £16m yn galluogi ysgolion cymwys i dargedu'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad er mwyn gwella disgwyliadau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion o

bob oed. Mae elfen o £1m wedi'i neilltuo ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae cyllid i alluogi Estyn i gynnal arolygon annibynnol o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant wedi'i gynnwys yn MEG AADGOS y SPA hwn ar hyn o bryd, ond bydd BELs Estyn yn symud i MEG yr Arolygiaethau adeg pennu'r gyllideb derfynol dan awdurdod y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**SPA 4: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion**
**Cynyddu'r llinell sylfaen refeniw o £38.8m yn 2006-07 i £55.7m yn 2007-08**
**Darpariaeth gyfalaf yn £2m o hyd**

Yn ei Datganiad Ysgrifenedig i'r Cabinet ar 25 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y bydd £6m ychwanegol ar gael fel rhan o'r setliad refeniw i awdurdodau lleol ar gyfer y costau cynyddol o ddarparu ar gyfer anghenion cymhleth plant ag anghenion addysgol arbennig. Bydd £5 miliwn yn dod o MEG AADGOS a £1m o lywodraeth ganolog.

Mae yna gynnydd hefyd o £2.4m o linell sylfaen 2006-07 ar gyfer grantiau am anghenion ychwanegol i'w defnyddio i gefnogi gwasanaethau ategol yn uniongyrchol sydd naill ai'n arloesol, yn gydgysylltiedig neu'n ymdrin ag anghenion penodol a dargedir.

Rwyf wedi sicrhau llinell sylfaen o £3.1m ar gyfer y Grant i Geiswyr Lloches ac mae cyllideb o £5m wedi'i phennu ar gyfer y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG). Mae BEL Bwyd mewn Ysgolion wedi cynyddu £4.5m i £11.6m er mwyn darparu cyllid ar gyfer brecwast a llaeth am ddim mewn ysgolion cynradd a sicrhau bod pob ysgol sydd am gymryd rhan yn y cynllun hwn yn gallu gwneud hynny. Bydd cyllid newydd gwerth £1.4m yn 2007-08 ar gyfer safonau maeth mewn ysgolion yn cynorthwyo'r gwaith o ddechrau gweithredu argymhellion Blas am Oes.

**SPA 5: Datblygu Ymarferwyr**
**Cynyddu'r llinell sylfaen o £26.8m i £27.4m**

Mae llinell sylfaen Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cynyddu £540,000 yn 2007-08, sy'n ategu fy ymrwymiad i greu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus i bob athro sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n sicrhau y bydd tua 4,000 o gyfleoedd datblygu ar gael i athrawon – cynnydd o 500 o gymharu â 06-07.

Bydd y cyllid hefyd yn galluogi dysgwyr i rannu eu profiadau'n ehangach, gan gysylltu â'n strategaeth addysgeg addysgu a dysgu 5 mlynedd.

Bydd cyllid y SPA hwn hefyd yn helpu i sicrhau bod Cymru'n parhau i ddenu ymgeiswyr o ansawdd uchel ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn 2007-08 trwy hyrwyddo addysgu fel gyrfa a thrwy gynnig cymhellion hyfforddi ac addysgu.

Mae £70m y flwyddyn ar gael eto trwy'r Grant Cynnal Refeniw yn 2007-08 a'r blynyddoedd canlynol er mwyn gweithredu'r Cytundeb ynghylch Llwyth Gwaith Athrawon.

Bydd y gyllideb yn fy ngalluogi i barhau i ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol rhagorol er mwyn cefnogi Gweithlu'r Dysgwyr yng Nghymru a sicrhau ein bod yn cadw ymarferwyr o ansawdd uchel yng Nghymru.

**SPA 6: Dysgu Lefel Uwch**
**Cynyddu'r llinell sylfaen refeniw o £409.1m yn 2006 – 07 i £411.1m yn 2007-08**
**Darpariaeth gyfalaf yn £21.4m, fel yn 2006-07**

Ar ôl tynnu'r elfen Ffrwd Incwm Atodol, mae cyfanswm y cyllid i'r sector AU o'r SPA hwn wedi cynyddu tros £13.6m o gymharu â llinell sylfaen 2006-07. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 3.5%, sy'n uwch na graddfa chwyddiant.

Rhoddwyd cyllideb y Ffrwd Incwm Atodol ar waith er mwyn sicrhau na fyddai Sefydliadau AU yng Nghymru yn cael eu cosbi'n ariannol oherwydd y newid i ffioedd dysgu yn Lloegr o'r flwyddyn academaidd 2006/07. O'r flwyddyn academaidd 2007/08 ymlaen, bydd sefydliadau AU yng Nghymru yn gallu codi ffioedd dysgu hyd at £3,075 – dyma sy'n gyfrifol am natur untro'r Ffrwd Incwm Atodol. Mae'r Sector ei hun wedi cydnabod bod ein darpariaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol yn un hael.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi bod yn gwella ei ddadansoddiad o gyllid AU a gyhoeddwyd ganddo'r llynedd, ac yn ei ddiweddaru i gynnwys setliad cyllideb 2004/05. Mae'r Cyngor hefyd wedi ehangu ei ddadansoddiad, ar gais Addysg Uwch Cymru, er mwyn cymharu'r cyllid a roddir i AU yng Nghymru â'r hyn a roddir i'r sector AU yn rhanbarthau Lloegr. Mae dadansoddiad CCAUC yn parhau i ddangos bod modd cyrraedd casgliadau gwahanol iawn ynghylch amcangyfrifon o fwlch cyllido, yn dibynnu ar y dull cyfrifyddu a ddefnyddiwyd.

Mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y sector AU y cytunwyd arno y llynedd yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y £1m ychwanegol ar gyfer 2006-07 a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ar 11 Gorffennaf.

**SPA 7: Cyllid Dysgwyr a Myfyrwyr**
**Cynyddu'r llinell sylfaen refeniw o £118.9m yn 2006-07 i £191.4m yn 2007-08**

Y llynedd fe wnaethom lwyddo i sicrhau bod cyfrifoldeb am y maes cymorth i fyfyrwyr yn cael ei ddatganoli i ni o'r Adran Addysg a Sgiliau, gan ein galluogi i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau i gynorthwyo myfyrwyr. Mae cyllideb 2007-08 yn cynyddu er mwyn sicrhau y bydd y cyllid, o flwyddyn academaidd 2007/08, yn gallu talu am grantiau ffioedd dysgu newydd i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer er mwyn gwneud iawn am gostau dysgu uwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru o'r flwyddyn honno ymlaen. Mae hefyd yn cynnwys Grant Dysgu'r Cynulliad newydd ar gyfer AU yn benodol a fydd yn disodli'r hawl gyfredol am grant AU yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) a Grant Dysgu'r Cynulliad (ALG).

Bydd y goblygiadau ariannol manwl o ran ateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Graham yn cael eu cynnwys mewn Cyllideb terfynol y Cynulliad.

**SPA 8: Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i Bobl Ifanc ac Oedolion**
**Cynyddu'r llinell sylfaen refeniw o £565.1m yn 2006-07 i £606.7m yn 2007-08**
**Darpariaeth gyfalaf yn cynyddu o £24.9m yn 2006-07 i £27.3m yn 2007-08**

Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer y maes ôl-16 yn cynyddu tua £44 miliwn neu bron i 7.5% yn 2007-08. Bydd y dyraniad ychwanegol yn diogelu darpariaeth sylfaenol, yn ategu buddsoddi mewn datblygiadau strategol pwysig ac yn sicrhau bod ymrwymiad y Cynulliad ym maes cyflogau Addysg Bellach yn cael ei roi ar waith.

Mae cyllid i ddiwygio'r cwricwlwm 14-19 oed yn cynyddu i £32.5m yn 2007-08 (£20.9m refeniw ac £11.6m cyfalaf). Mae'r gyllideb refeniw wedi'i chynnwys yn BEL 14-19 a BELs Darpariaeth i Ddysgwyr a Buddsoddi Strategol ar gyfer y maes ôl-16. Er mwyn sicrhau tryloywder, bwriedir trosglwyddo holl elfennau refeniw cyllidebau ôl-16 i BEL Llwybrau Dysgu 14-19 yn y gyllideb derfynol. Tros amser, bydd chwe phrif elfen y Llwybrau Dysgu yn sicrhau bod holl ddysgwyr 14-19 yn derbyn y gymysgedd o brofiadau dysgu sydd fwyaf addas i'w hanghenion.

Bwriad y cynnydd yn BEL cyfalaf buddsoddi strategol yw cefnogi'r gwaith sy'n sylfaen i gydweithredu ac sy'n dechrau gweithredu canlyniadau'r adolygiadau braenaru ar ddarpariaeth er mwyn ein galluogi i barhau i roi'r agenda 14-19 ar waith.

## Blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2007-08

Mae'n dda gennyf ddweud y bydd y gyllideb ar gyfer 2007-08 yn fy ngalluogi i ymdrin â blaenoriaethau allweddol y Pwyllgor a nodwyd yn llythyr Peter Black a anfonwyd ataf ar 4 Gorffennaf 2006. (Gweler y copi yn Atodiad 2)

## Rhoi'r Cyfnod Sylfaen Ar Waith

Mae £2.5m o gyllid refeniw ychwanegol wedi'i ddyrannu yn y cylch cyllideb hwn i gefnogi'r gwaith o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Defnyddir y cyllid ar gyfer hyfforddiant ychwanegol i gynyddu'r nifer o staff ychwanegol (cynorthwywyr dosbarth yn bennaf), wedi'u hyfforddi i NVQ Lefel 3 mewn Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Cyfanswm y gyllideb o 2007-08 fydd £10m.

## Cymorth i Ysgolion Bach

Cytunwyd ar gymorth i ysgolion bach a gwledig fel rhan o Gylch Cynllunio'r Gyllideb 2005, ac rwyf wedi cadw'r un lefel o gymorth, sef £4.1m y flwyddyn.

## Darpariaeth Addysg Bellach ac Addysg Gymunedol

Rwyf wedi cynyddu cyfanswm BEL Darpariaeth i Ddysgwyr £7m er mwyn rhoi ystyriaeth i bwysau o ran cyflogau a phrisiau a ddiystyriwyd mewn cylchoedd cyllideb blaenorol. Bydd hyn yn cyfrannu at gost cyflogau darlithwyr wrth iddyn nhw ennill pwyntiau ar y golofn gyflog.

## Addysg Uwch a'r Bwlch Cyllido

Mae cyllid ar gyfer Addysg Uwch wedi cynyddu, ac mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i weithio gyda'r sector wrth iddo symud ymlaen. Mae Addysg Uwch yn sector allweddol yng Nghymru, ac mae'r sector yn wynebu heriau sylweddol megis agenda foderneiddio uchelgeisiol, sy'n cynnwys proses o foderneiddio cyflogau. Mae'r Ffrwd Incwm Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn cydnabod yr heriau hyn, a bydd rhan ohoni'n cael ei chyllido yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08. Mae gwaith CCAUC yn cymharu lefelau cyllido yn dangos bod Cymru'n gwario £9m y flwyddyn yn fwy ar AU na Lloegr, ar sail lefel gwariant y pen. Bydd y gwaith o ddadansoddi'r cwestiwn cymhleth o gymharu gwariant ar AU yn parhau, felly hefyd gwaith Llywodraeth y Cynulliad ar ymateb i Adolygiad Graham.

## Cyllid Cyfalaf ar gyfer Adeiladau Ysgolion

Rwyf wedi ychwanegu £7m pellach at gyllideb y Grant Gwella Adeiladau Ysgolion er mwyn sicrhau bod cynnydd pellach yn cael ei wneud tuag at sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas i'r diben.

## Sgiliau Sylfaenol

Mae llinell sylfaen cyllideb £14.9m yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar gyfer 2007-08 wedi cynyddu £1.5m neu 11% o gymharu â'r llynedd. Bydd hyn yn darparu mwy o gymorth i ddarparwyr sgiliau sylfaenol rheng flaen sy'n gweithio gyda phob grwp oed ac yn ehangu rhaglen Addewid y Cyflogwr.

## Argymhellion yr Adolygiad ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Ar ôl rhoi ystyriaeth i adroddiad yr Is-grwpiau Addysg, mae £6m ychwanegol wedi'i ddyrannu er mwyn ymateb i'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â darpariaeth AAA (dadansoddir manylion y cyllid uchod). Mae cynnydd o £2.4m o gylchoedd cynllunio Cyllideb blaenorol ar gael ar gyfer grantiau am anghenion ychwanegol.

## Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant Ôl-16

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn gan ELWa a Sgiliau Dyfodol Cymru. Wrth i fwy o Gynghorau Sgiliau Sector gynnal gwaith Cytundebau Sgiliau Sector, byddwn yn mynd ati fwyfwy i ddefnyddio hwn a gwaith ymchwil gan Sgiliau Dyfodol Cymru fel tystiolaeth gadarn ar gyfer datblygu polisi a modd o ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid i ymdrin ag anghenion sgiliau. Mae modd i gyflogwyr gael asesiadau am ddim o'u hanghenion hyfforddi trwy Raglen Datblygu'r Gweithle, ac mae sgiliau sylfaenol pob dysgwr ôl-16 yn cael eu hasesu. Defnyddir cyllid SPA8 ar gyfer y ddau.

**Pwynt cyswllt**
**Judith Nedin - Ffôn 02920 82 6972**